Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Yr Ardd-lîn

Yr Ardd-lîn
Llanymynech
Powys
SY22 6RT

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Yr Ardd-lîn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Yr Ardd-lîn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 115 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 100 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | Dd/b |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%) | 4.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 02/09/2024 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 23/04/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 30/06/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae'r pennaeth dros dro wedi gweithio'n agos gyda staff, llywodraethwyr a disgyblion i ailddiffinio gweledigaeth ar y cyd ar gyfer yr ysgol. Mae Ysgol Yr Ardd-lîn yn ysgol wresog a chroesawgar gydag ymdeimlad cymunedol cryf, lle mae staff a disgyblion yn dangos gofal a pharch at ei gilydd. Mae hyn yn creu amgylchedd tawel ac anogol sy'n cefnogi dysgu a datblygiad yn effeithiol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn llwyddiannus, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella trwy fonitro a hunanwerthuso pwrpasol. Mae llywodraethwyr yn wybodus ac yn darparu her a chymorth cadarn i arweinwyr yr ysgol.

Mae'r cwricwlwm yn eang, yn gytbwys ac yn alinio'n bwrpasol â Chwricwlwm i Gymru. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau ac yn gwneud cynnydd cryf. Maent yn cymhwyso'u medrau ar draws meysydd dysgu ac mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn yn llwyddiannus ac yn elwa ar weithgareddau difyr, gan gynnwys ymweliadau addysgol ledled Cymru. Mae athrawon yn defnyddio'r ardal leol a Chymru fel un o'r prif sbardunau wrth gynllunio testunau. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer datblygiad disgyblion yn y Gymraeg. Maent yn ymestyn y gwaith hwn yn effeithiol trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau fel Eisteddfod Ryngwladol Llangollen.

Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn adnabod disgyblion yn dda ac yn addasu darpariaeth i ddiwallu anghenion unigol, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae cymorth yn sensitif a chynhwysol, gan arwain at les da ar gyfer disgyblion ag ADY.

Mae cyflymdra da i'r rhan fwyaf o wersi, ac maent yn darparu her briodol. Mae athrawon yn ystyried yr hyn y mae disgyblion eisiau dysgu amdano. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae caniatáu mwy o fewnbwn i ddisgyblion i sut maent eisiau dysgu. Ar draws yr ysgol, nid oes ymagwedd gyson at adborth nac ar gyfer sut mae athrawon yn cynorthwyo disgyblion i fireinio'u gwaith.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Cryfhau ansawdd yr adborth a roddir i ddisgyblion, a sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd pwrpasol i ddefnyddio'r wybodaeth hon i wella'u gwaith

A2 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau am sut maent yn dysgu a gweithio'n annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Ardd-lîn yn ysgol wresog a chroesawgar gydag ymdeimlad cymunedol cryf. Mae staff a disgyblion yn dangos llawer o ofal a pharch at ei gilydd. Mae hyn yn cyfrannu at amgylchedd tawel ac anogol i ddysgu a datblygu ynddo. Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol.

Mae'r pennaeth dros dro a benodwyd yn ddiweddar wedi gweithio'n effeithiol gyda staff, llywodraethwyr a disgyblion i ailddiffinio gweledigaeth ar y cyd sy'n treiddio trwy waith yr ysgol. Mae hi'n arwain trwy esiampl ac yn datblygu diwylliant cadarnhaol o wella'r ysgol, er enghraifft trwy alluogi athrawon sydd newydd gymhwyso i'w harsylwi'n addysgu, ac wedyn yn modelu arfer fyfyriol wrth drafod y wers ar ôl hynny.

Mae prosesau monitro a hunanwerthuso effeithiol yn sicrhau bod arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Mae arweinwyr yn gweithredu strategaethau gwella yn llwyddiannus. Er enghraifft, o ganlyniad i'r ffocws ar wella darpariaeth ar gyfer addysg Gymraeg, mae disgyblion yn meddu ar fedrau llafaredd Cymraeg cryf ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi datblygu cwricwlwm eang, cytbwys a chyffrous i alinio ag egwyddorion a dibenion Cwricwlwm i Gymru. Mae athrawon yn cynllunio ar gyfer dilyniant yn effeithiol, ac fe gaiff disgyblion gyfleoedd buddiol i gymhwyso'u medrau ym mhob maes dysgu. Mae'r

ysgol yn darparu ystod o weithgareddau ysgogol a difyr, gan gynnwys ymweliadau ystyrlon ledled Cymru, sy'n datblygu chwilfrydedd disgyblion ac yn eu cynorthwyo i ddod yn ddysgwyr creadigol a moesegol. Mae pwyslais cryf ar yr ardal leol, Cymru, a Chymreictod.

Mae ychydig o ddisgyblion yn elwa ar gyfleoedd i wella'u medrau arwain ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau trwy grwpiau arweinyddiaeth disgyblion yr ysgol. Er enghraifft, mae 'Dŵds y Gymraeg' yn arwain gwasanaethau difyr yn gysylltiedig â themau Cymreig.

**Ciplun: Rhoddir blaenoriaeth uchel i Gymru a'r Gymraeg yn y cwricwlwm a'r addysgu**

Mae disgyblion a staff yn Ardd-lîn yn falch o fod yn rhan o ysgol yng Nghymru. Achubir ar bob cyfle i ddathlu ac elwa ar dreftadaeth Cymru, ei diwylliant, a'r Gymraeg. Mae cynefin yn rhan ganolog o gynllunio testunau, ac fe gaiff disgyblion eu hannog i ddysgu am eu hardal leol, a gofalu amdani, er enghraifft trwy ysgrifennu at y gymuned leol am ddifrod i Golofn Rodney. Caiff gwybodaeth disgyblion am Gymru ei datblygu trwy ystod eang o dripiau sy'n cyfoethogi testunau yn llwyddiannus. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion, ac maent yn eu hannog i siarad Cymraeg yn hyderus ac yn dra-chywir. Mae disgyblion wedi cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a'r Eisteddfod Ryngwladol yn Llangollen. At ei gilydd, mae cynnydd disgyblion yn dysgu Cymraeg yn gryf.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn adnabod eu disgyblion a'u hanghenion datblygiadol yn dda. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud addasiadau ystyriol i ddarpariaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae staff yn darparu cymorth sensitif ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn gwneud defnydd medrus a chynnil o strategaethau sy'n sicrhau bod disgyblion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, tra'n sicrhau eu bod yn gallu manteisio'n llawn ac yn gyfartal ar bob agwedd ar ddarpariaeth yr ysgol, hefyd. Mae staff yn cael dysgu proffesiynol gwerthfawr i'w galluogi i gynorthwyo disgyblion ag ADY. Maent yn defnyddio'r medrau a'r wybodaeth y byddant yn eu caffael i gyflwyno ystod o strategaethau cymorth yn llwyddiannus.

Mae athrawon yn sicrhau bod y rhan fwyaf o wersi'n symud ar gyflymdra da ac yn cynnig her briodol. Mae athrawon yn gwrando ar syniadau a diddordebau disgyblion, ac yn eu hystyried, wrth gynllunio testunau. Fodd bynnag, mae athrawon yn tueddu i roi gormod o gyfarwyddyd ar sut mae disgyblion yn dysgu ac yn colli cyfleoedd gwerthfawr i feithrin medrau datrys problemau a dysgu'n annibynnol. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar fedrau digidol cryf a gallant ddefnyddio ystod o feddalwedd yn

hyfedr. Fodd bynnag, mae gormod o gyfarwyddyd gan athrawon yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i ddewis yr offer digidol mwyaf addas ar gyfer tasg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da â'u medrau mathemategol. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n diwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn deall rhifau i 20, yn adnabod patrymau rhif syml, yn cyfrif fesul dau, ac yn gwneud symiau adio sylfaenol gan ddefnyddio adnoddau go iawn. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o rif ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gwblhau ystod o gyfrifiadau yn y pen ac yn ysgrifenedig yn effeithiol. Maent yn cymhwyso'u medrau ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus, er enghraifft defnyddio data i amcangyfrif pa mor hir y mae'n ei gymryd i ddeunyddiau bydru.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad da, ac erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, maent yn siarad yn hyderus ac yn mynegi eu hunain yn dda. Mae'r disgyblion hynaf yn ddarllenwyr rhugl a brwdfrydig sy'n mynegi barn am wahanol genres ac yn darllen â mynegiant. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn dda. Mae disgyblion iau yn defnyddio'u gwybodaeth am seiniau i ysgrifennu geiriau a brawddegau, tra bod disgyblion hŷn yn trefnu eu hysgrifennu yn baragraffau bywiog ac effeithiol, gan ddewis geirfa i weddu i'r genre. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo yn eu gwaith, ac yn ei gyflwyno'n ddestlus.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chreadigol disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn sicrhau bod gan ddisgyblion synnwyr cryf o gydraddoldeb, er enghraifft trwy ddysgu am ddigwyddiadau yn gysylltiedig â chenhedlaeth Windrush. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn datblygu gwerthfawrogiad aeddfed o'r heriau sy'n wynebu pobl eraill, ac yn dangos empathi a thosturi.

Mae athrawon ar draws yr ysgol yn defnyddio ystod o strategaethau i sicrhau bod disgyblion yn deall beth sy'n ofynnol o weithgaredd ac yn darparu adborth ar sut i wella'u gwaith. Fodd bynnag, nid yw hyn yn datblygu'n systematig wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol. Megis dechrau datblygu y mae gwaith i ddatblygu ymagwedd gyson at adborth a chynorthwyo disgyblion â sut i ddefnyddio'r wybodaeth hon i fireinio'u gwaith.

Mae cyfleoedd rheolaidd a chynlluniedig i lywodraethwyr weithio gyda staff, cymryd rhan mewn teithiau dysgu, a siarad â disgyblion, yn sicrhau bod llywodraethwyr yn wybodus am fywyd yr ysgol. Maent yn deall cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu ac yn darparu her a chymorth cadarn i'r pennaeth dros dro.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder ac wedi cael eu dwyn i sylw'r awdurdod lleol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/09/2025